

Blwyddyn Newydd Dda 2019!

Cyffes a Dyhead

Mae gen i gyffes fach i'w rannu â chi. Dydw i ddim yn un sy'n cyffroi wrth feddwl am y Flwyddyn Newydd. Bu fy nhad farw ar Nos Calan 2004 ond hyd yn oed cyn hynny rhyw wyl ddibwrpas, ddi-fudd fu'r Flwyddyn Newydd i mi erioed.

Pan ddysgais am arwyddocâd y cyfnod sy'n ymestyn o'r 25ain o Ragfyr hyd at y 6ed o Ionawr – y deuddeng niwrnod hynny sy'n digwydd rhwng y Nadolig a Nos Ystwyll – roedd dathliadau'r Flwyddyn Newydd rhywsut yn torri ar draws y cofio melys hwnnw. Neu efallai hefyd fy mod yn ymwybodol mai dim ond planed ydy'n planed fechan ni sy'n cylchdroi'n dawel ac yn ddiffwdan o gwmpas yr haul. Does dim dechrau na diwedd i'r symudiad hwnnw. Dyfeisgarwch dyn luniodd galendr a therfyn i bob mis ac fe roesom heibio gyfrif ein misoedd yn ôl calendr y lleuad ers llawer i ddydd bellach. Hynny, mwy na thebyg, yw'r rheswm nad wyf yn malio taten am ddyfodiad Blwyddyn Newydd. Er fy nifaterwch ynglŷn â'r cyfnod rwyf yn dymuno bendith Duw arnom wrth i un diwrnod ddilyn y llall drwy'r flwyddyn a ddaw.

Er hyn, os dilynwn batrwm llithiadur eglwysig neu ddarlleniadau Beiblaidd dyddiol mwy na thebyg bydd y darlleniadau ar gyfer y flwyddyn newydd yn canolbwyntio ar ddechreuadau gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu. Rwy'n meddwl yn arbennig am eiriau cychwynnol Efengyl Marc.

'Tua'r adeg yna daeth Iesu o Nasareth, Galilea i gael ei fedyddio gan Ioan yn yr Iorddonen. Yr eiliad y daeth Iesu allan o'r dŵr, gwelodd yr awyry yn rhwigo'n agored a'r Ysbryd Glân yn disgyn arno fel colomen. A dyma lais o'r nefoedd yn dweud,

'Ti ydy fy Mab annwyl i rwyf ti wedi fy mhlesio i'n llwyr.' (beibl.net)

Does dim angen gŵyl seciwlar er mwyn dod â hyn i'r amlwg. Yn y geiriau hyn gwelwn fod rhywbeth rhyfeddol yn digwydd – bod Duw wedi torri mewn i fyd amser ym mherson yr Arglwydd Iesu gan wyrdroi safonau bydol, disgwyliaid a byd-olwg ein byd. Torrodd Deyrnas Dduw i mewn i'n byd. Yn ei ddyfodiad caiff pobl eu sialensio i edrych arnyn nhw eu hunain a'r byd o'u cwmpas mewn ffordd gwbl wahanol, i droi oddi wrth eu hen ffordd o feddwl a throi eu golygon at Deyrnas Dduw a'i werthoedd.

Wrth i ni ddarllen y Testament Newydd byddwn yn gweld Iesu'n galw ar bysgotwyr a chasglwyr trethi i'w ddilyn. Ni fydd yn rhoi gormod o bwys ar reolau a defodau'r Phariseaid. Bydd yn adrodd storïau fydd yn egluro dyfodiad y Deyrnas Newydd honno. Ymhen byr o dro bydd pobl yn dechrau troi yn ei erbyn, bydd yn cael ei wrthod yn ei gartref yn Nasareth a phobl yn cynllunio i'w ladd. Er gwaethaf hyn i gyd bydd yn dal i alw ac yn dal i ddweud, 'Dilyn fi.'

Os mai dyna a gredwn ar ddechrau blwyddyn newydd yna dwi am gael fy nghyfrif yn eich plith, yn wir fi fyddai'r cyntaf i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi.

A bydd gennym yr adduned flwyddyn newydd orau un i gyd sef i ymrwthod â gwerthoedd bydol a daearol, i edrych o'r newydd ar alwad Teyrnas Dduw, gan geisio dilyn yr Un ddaeth i gyhoeddi bod y Deyrnas wedi dod ar ei ddyfodiad Ef.

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!

**Parch Brian Matthews,
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol**

Dilyn y doethion

Nid stori neis neis, yn llawn o siwgr a sbeis yw hanes y Nadolig a'r Ystwyll. Mae angen dweud hyn am y rheswm syml ein bod yn cael ein denu gan yr heip a'r hysbysebu. Ond fel y dywedodd un o Dadau'r Eglwys Fore.

'Gadewch i ninnau hefyd ddilyn y Doethion, a gadewch i ninnau ymwahanu oddi wrth ein harferion barbaraid, a gosod pellter mawr rhyngom â hwy, fel y medrwn weled Crist. Pe na byddent wedi symud ymhell o'i mamwlad byddent wedi methu â'i weld Ef.'

Ioan Chrysostom



'Cyn gweled y plentyn bychan, gwasgodd ofnau a pheryglon o bob math ar y Doethion; ond wedi iddynt ei addoli, roeddynt yn llawn o heddwch ac roeddynt yn ddiogel; nid seren oedd yn eu derbyn mwyach ond angel; daethant yn offeiriaid [i Dduw] trwy'r weithred o addoli.'

Ioan Chrysostom